Mae grŵp ym Mlwyddyn 11 yn trefnu digwyddiad i godi arian fel rhan o'r Fagloriaeth Gymreig. Dyma gofnodion drafft y cyfarfod i drafod y digwyddiad. Mae angen darllen drwyddyn nhw'n ofalus, cywiro camgymeriadau a llenwi bylchau.

## Cyfarfod grŵp

Yr ystafell Gymraeg, dydd Gwener, Tachwedd 13

Yn bresenol: Dafydd Thomas (Cadeirydd), Izzie Smith (Ysgrifennydd), Erin Jones, Sam Lewis, Osman Mohamed
Ymddiheuriadau: Bethan Williams

Trafodwyd nifer o syniadau ar gyfer y digwyddiad i godi arian:

- cynnal disgo ar diwedd y tymor
- cynnal bore coffi i'r staff ar ddechrau Rhagfyr
- casglu arian yn y ganolfan siopa cyn y nadolig
- ras Santas cyn y Nadolig - trefnu ras arbennig cyn y Nadolig, gyda phawb wedi ei wisgo fel Siôn Corn
- gweithgareddau noddedig fel peidio .......... siarad am 6 awr, aros yn neuadd yr ysgol drwy'r nos heb gysgu

Penderfynwyd:

- Gan fod y tywydd mor oer yr adeg yma o'r flwyddyn, penderfynwyd y byddai'n well cynnal gweithgaredd tu mewn. Felly, penderfynwyd cynnal parti gwisg ffansi ar thema Harry Potter ar ddiwedd y tymor:
- Tâl mynediad - bydd pawb sydd wedi ei wisgo fel cymeriad / creadur o lyfrau Harry Potter yn talu £2.00; Os bydd pobl yn penderfynu dod heb wisgo fel un o'r cymeriadau / creaduriaid, rhaid ............. dalu £3.00.
- Bydd Izzie'n trafod gyda'r adran Technoleg Bwyd er mwyn penderfynu ar ryseitiau syml, addas, gydag enwau diddorol arnyn nhw.
- Bydd Dafydd yn gofyn i Matt a Dai o Flwyddyn 13 i ofalu am y gerddoriaeth.
- Bydd Erin yn gyfrifol am wneud posteri a thocynnau.
- Bydd Sam yn gofyn i Mr Davies, y Dirprwy, i weld ydy'r neuadd ar gael ar Hydref 21.
- Bydd Osman a'i ffrindiau'n gyfrifol am yr addurniadau,

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Yr ystafell Gymraeg, dydd Gwener, Tachwedd 27